OFFICE OF FAIR TRADING

Papur ymgynghorol ar Orchmynion Anghymwyso rhag Cystadlu

Mesur Mentrau

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn trafod pwerau'r Swyddfa Masnachu Teg (*Office of Fair Trading* yn Saesneg neu'r OFT)[1] a phob rheolydd penodedig[2] o dan ddarpariaethau'r Gorchmynion Anghymwyso rhag Cystadlu (*Competition Disqualification Order neu CDO*) yn Neddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 (CCDA).[3] Nid yw'r arweiniad yn cyflwyno sylwadau ar weithdrefnau'r llys mewn perthynas â CDOs, ac nid yw'n dyfalu a fydd llys yn penderfynu gorchymyn CDO.

Mae'r OFT wedi ymrwymo i dryloywder ac mae'n dymuno esbonio'r dull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio mewn perthynas â CDOs. Anelir yr arweiniad hwn at gyfarwyddwyr cwmnïau, eu hymgynghorwyr proffesiynol a chymdeithasau proffesiynol perthnasol. Fodd bynnag, gobeithir y bydd pobl busnes a defnyddwyr yn gyffredinol hefyd yn gweld bod yr arweiniad hwn o ddefnydd.

Mae pennod 2 o'r arweiniad hwn yn trafod cynsail statudol CDOs. Mae pennod 3 yn amlinellu'r gynsail statudol ar gyfer Ymgymeriadau Anghymwyso Cystadleuaeth. Mae pennod 4 yn disgrifio'r ffactorau y bydd yr OFT yn eu hystyried wrth benderfynu ceisio am CDO neu beidio. Mae pennod 5 yn amlinellu'r gweithdrefnau y bydd yr OFT yn eu dilyn **cyn** ceisio am CDO gan y llys, yn ogystal â'r ffactorau y bydd yr OFT yn eu hystyried wrth benderfynu i dderbyn Ymrwymiad Anghymwyso rhag Cystadlu neu beidio.

---

[1] Cyfieithir Office of Fair Trading (OFT) fel Swyddfa Masnachu Teg

[2] At y pwrpasau hyn, golyga rheolydd penodedig:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu
- Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau D r
- Rheolydd y Rheilffyrdd, ac
- Awdurdod Hedfan Sifil.

Yn ei sector penodedig, y mae gan reolydd penodedig holl bwerau'r OFT mewn perthynas â CDOs (gweler adrannau 9A(10) a 9B y CDDA). (Ar hyn o bryd y mae swyddogaeth y CAA wrth ystyried CDO yn gyfyngedig i ymgymerwr, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau trafnidiaeth awyr, yn torri cyfraith gystadlu.) Trwy weddill yr arweiniad hwn bydd y termau 'Office of Fair Trading' ac 'OFT' yn **cynnwys** rheolwyr penodedig.

[3] Adrannau 9A—9E CDDA.